**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF AR DYDD LLUN, 9 MEDI 2019**

**AELODAU**

Y Cynghorydd T Alan Edwards, Cadeirydd
Y Cynghorydd I David Bithell, MBE, Is-Gadeirydd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd | | Brian Cameron | Y Cynghorydd | | M G Morris |
| “ | * | Krista Childs | “ | | Beverley Parry-Jones |
| “ | * | Gwenfair Jones | “ | | Paul Pemberton |
| “ | * | Geoff Lowe | “ | | John Phillips |
| “ | * | David Maddocks | “ | * | Robert Walsh |
| “ | | Tina Mannering | “ | | Derek Wright |

*Yn absennol

## 22 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Krista Childs, Geoff Lowe, David Maddocks a Robert Walsh.

## 23 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd aelodau o’u cyfrifoldeb, dan Erthygl 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

Eitem Rhif 7 – Y Cynghorydd John Phillips – Cysylltiad Personol sy’n Rhagfarnu – roedd yr Aelod yn adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu’n rhan o’r drafodaeth na’r bleidlais.

## 24 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Eitemau 5 i 7 ar y Rhaglen: Penderfynodd yr Aelodau, wrth ystyried yr adroddiadau hyn, y dylid gweithredu paragraff 12. Eu barn o ran prawf lles y cyhoedd oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu data personol yn ymwneud ag unigolyn, ac y byddai’n groes i egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Oherwydd hyn a gan nad oedd yn ymddangos bod lles cyhoeddus aruthrol o blaid datgelu data personol, teimlant fod lles y cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn drech na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

**PENDERFYNWYD - Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r Cyfarfod tra roedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).**

**25** **CAIS TRWYDDED GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/41/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad, sylwadau'r ymgeisydd a llythyr cefnogaeth.

**PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellwyd yn adroddiad COPR/41/19.**

**26** **AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN**

Dywedwyd wrth Aelodau nad oedd y Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat y cyfeiriwyd ato yn Eitem rhif 6 ar y Rhaglen wedi cyrraedd eto.

**CYTUNWYD – Bod Eitem 7 ar y Rhaglen yn cael ei dwyn ymlaen a'i thrafod yn y fan hon.**

**27** **CAIS TRWYDDED GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT**

*(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau mewn perthynas â'r eitem hon yng Nghofnod 23 uchod)*

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/40/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad ac i sylwadau'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd.

**PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellwyd yn adroddiad COPR/40/19.**

**28** **CAIS TRWYDDED GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/39/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd yr ymgeisydd wedi mynychu nac wedi rhoi unrhyw eglurhad dros beidio â gwneud hynny. Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad yn ei absenoldeb.

**PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellir yn adroddiad COPR/39/19 a bod y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i fynegi pryder y Pwyllgor o ran ei euogfarn a'i fethiant i ddatgelu hynny'n llawn, i roi rhybudd llym ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol ac i gyfleu siom y Pwyllgor am iddo fethu mynychu'r gwrandawiad.**

Y Cynghorydd T Alan Edwards
Cadeirydd